

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu, neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 334 (Cy. 76)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws: Cau Busnesau
Hamdden, Llwybrau Troed a Thir
Mynediad) (Cymru) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gau safleoedd carafannau gwyliau, safleoedd gwersylla, arcedau difyrion a chanolfannau chwarae dan do i ddiogelu yn erbyn risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o goronafeirws. Byddant ar gau hyd nes y rhoddir cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru yn caniatáu iddynt ailagor. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a osodir gan y Rheoliadau bob 28 o ddiwrnodau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod oblygiad, at yr un diben, ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau rhai llwybrau troed a thir mynediad cyhoeddus.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwnaed yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu, neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 334 (Cy. 76)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws: Cau Busnesau
Hamdden, Llwybrau Troed a Thir
Mynediad) (Cymru) 2020**

Gwnaed am 10.00 p.m. ar 23 Mawrth 2020

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru 24 Mawrth 2020*

Yn dod i rym am 12.00 pm. ar 24 Mawrth am 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1), 45C(3)(c), 45C(4)(d), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Gwneir y Rheoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlu aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(1) 1984 p. 22 (“Deddf 1984”). Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hynny wedi eu rhoi i “the appropriate Minister” (“y Gweinidog Priodol”). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog Priodol o ran Cymru yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, dod i rym, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020 a deuant i rym am 12.00 p.m. ar 24 Mawrth 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) At ddiben y Rheoliadau hyn ystyr "coronafeirws" ("coronavirus") yw coronafeirws syndrom anadlu aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Y gofyniad i gau busnesau hamdden yn ystod yr argyfwng

2.—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am redeg busnes a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen, yn ystod y cyfnod perthnasol, gau ei fangre a pheidio â rhedeg ei fusnes.

(2) Os yw busnes a restrir yn yr Atodlen ("busnes A") yn ffurfio rhan o fusnes mwy o faint ("busnes B"), mae'r person sy'n gyfrifol am redeg busnes B yn cydymffurfio â'r gofyniad ym mharagraff (1) os yw'n cau busnes A.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a osodir gan y rheoliad hwn bob 28 o ddiwrnodau, gyda'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn.

(4) Cyn gynted ag y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes angen y cyfyngiadau a nodir yn y rheoliad hwn mwyach i atal, i ddiogelu rhag, i reoli neu i ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint yng Nghymru â'r coronafeirws, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd yn terfynu'r cyfnod perthnasol.

(5) Caiff cyfarwyddyd a gyhoeddir o dan baragraff (4) derfynu'r cyfnod perthnasol mewn perthynas â rhai o'r busnesau a restrir yn yr Atodlen, neu bob busnes a restrir yn yr Atodlen.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) mae “person sy’n gyfrifol am redeg busnes” yn cynnwys perchennog a rheolwr y busnes hwnnw;
- (b) mae’r “cyfnod perthnasol” yn cychwyn pan ddaw’r Rheoliadau hyn i rym ac yn dod i ben ar y diwrnod a bennir mewn cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (7).

Darpariaeth bellach yn ymwneud â chau safleoedd gwyliau

3.—(1) I’r graddau y mae rheoliad 2 (1) yn gymwys i safle gwyliau, mae’r oblygiad ar y person sy’n gyfrifol am gyflawni’r busnes (“P”) yn cynnwys oblygiad ar P i ddefnyddio ymdrechion gorau P i’w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy’n defnyddio cartref symudol neu garafán ar y safle pan fo’r fangre yn cau i adael y fangre.

(2) Ond nid yw’r oblygiad ym mharagraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson sy’n defnyddio cartref symudol i bobl fyw ynddo ar y safle gwyliau o dan gytundeb a wnaed o dan Ran 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Gofyniad i gau rhai llwybrau troed cyhoeddus a thir mynediad yn ystod yr argyfwng

4.—(1) Os yw paragraff (1) yn gymwys i lwybr troed neu dir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol, rhaid i’r awdurdod perthnasol —

- (a) gau y llwybr troed neu’r tir mynediad erbyn 12.00 y.h. ar 25 Mawrth 2020, a
- (b) ei gadw ar gau nes ei fod o’r farn nad yw cau mwyach yn angenrheidiol i atal, amddiffyn rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd cyhoeddus i fynychder neu ymlediad haint yn ei ardal gyda’r coronafeirws.

(2) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i’r llwybrau troed a’r tir mynediad yn ei ardal mae awdurdod perthnasol yn ystyried—

- (a) sydd â thuedd i niferoedd mawr o bobl yn ymgasglu arnynt neu i fod yn agos at ei gilydd arnynt, neu
- (b) mae’r defnydd ohono’n peri risg uchel fel arall i fynychder neu ymlediad haint yn ei ardal gyda’r coronafeirws.

(3) Rhaid i’r awdurdod perthnasol gyhoeddi rhestr o llwybrau troed neu dir mynediad sydd wedi ei gau yn ei ardal ar wefan.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn —

- (a) mae cyfeiriadau at lwybr troed yn cynnwys llwybr ceffylau, a

- (b) mae cyfeiriadau at lwybr troed neu dir mynediad yn cynnwys rhannau o lwybr troed neu dir mynediad.
- (5) Yn y rheoliad hwn —
- (a) ystyr "awdurdod perthnasol" yw —
- (i) Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru,
 - (ii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru,
 - (iii) Cyfoeth Naturiol Cymru, neu
 - (iv) yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- (b) mae i "llwybr troed" a "llwybr ceffylau" yr un ystyr â roddir i "footpath" a "bridleway" (yn eu trefn) yn adran 329 (1) o Ddeddf Priffyrdd 1980;
- (c) mae "tir mynediad" yn cynnwys tir y mae gan y cyhoedd fynediad ato yn rhinwedd ei berchnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond heblaw hynny mae iddo yr un ystyr ag "access land" yn adran 1 (1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Troseddau a chosbau

5.—(1) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri reoliad 2 yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n rhwystro, heb esgus rhesymol, unrhyw berson sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd.

(3) Mae trosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w gosbi ar gollfarn ddiannod drwy ddirwy.

(4) Os profir bod trosedd o dan baragraff (1) a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol—

- (a) wedi ei gyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad swyddog o'r corff, neu
- (b) y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y swyddog hwnnw,

mae'r swyddog (yn ogystal â'r corff corfforaethol) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn ac i gael achos wedi'i ddwyn yn ei erbyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i'r corff corfforaethol.

Gorfodi cyfyngiadau ac erlyn

6.—(1) Caiff person a ddynodir gan Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i orfodi gofyniad i gau mangre neu gyfyngiad a osodir gan reoliad 2.

(2) Caniateir dwyn achos am drosedd o dan reoliad 5 gan unrhyw berson a ddynodir gan Weinidogion Cymru.

Dod i ben

7.—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 10.00 p.m. ar 23 Mawrth 2020

YR ATODLEN

Rheoliad 2

Y busnesau y mae'n rhaid iddynt gau

RHAN 1

MATH O FUSNES

1. Safleoedd gwyliau.
2. Safleoedd gwersylla.
3. Arcêdau difyrion.
4. Canolfannau chwarae dan do.

RHAN 1

DEHONGLI

5.—(1) Yn yr Atodlen hon, ystyr “safle gwyliau” yw unrhyw dir yng Nghymru y mae cartref symudol wedi ei leoli arno at ddibenion bod yn gartref i berson (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â'r tir) y mae'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad ag ef, neu y mae trwydded y safle ar gyfer y tir—

- (a) wedi ei ddatgan i'w roi at ddiben ei ddefnyddio ar gyfer gwyliau yn unig, neu
- (b) yn ei gwneud yn ofynnol bod adegau o'r flwyddyn pan ni chaniateir lleoli unrhyw gartref symudol ar y safle i fod yn gartref i berson.

(2) At ddibenion penderfynu a yw safle yn safle gwyliau ai peidio, anwybyddir unrhyw ddarpariaeth o'r caniatâd cynllunio perthnasol neu'r drwydded safle sy'n caniatáu gosod cartref symudol ar y tir i bobl fyw ynddo drwy gydol y flwyddyn os awdurdodir y cartref i'w feddiannu gan —

- (a) y person sy'n berchennog ar y safle, neu
- (b) person a gyflogir gan y person hwnnw ond nad yw'n meddiannu'r cartref symudol o dan gytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys iddo.